IEPAW

# Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru

Adroddiad blynyddol 2022-2023

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Rhagair** | **3** |
| **Cyflwyniad** | **4** |
| **Adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith** | **5** |
| **Yr hyn a gyflawnwyd yn 2022-2023** | **6** |
| **Ymgysylltu â rhanddeiliaid** | **7** |
| **Ymgysylltu trawsffiniol** | **8** |
| **Proses** | **8** |
| **Y cyflwyniadau a dderbyniwyd** | **9** |
| **Manylion pellach am bryderon a dderbyniwyd** | **10** |
| **Adrodd i Weinidogion Cymru** | **11** |
| **Adroddiadau ar y gweill** | **11** |
| **Casgliad** | **12** |


OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG47722, ISBN digidol 978-1-83504-171-0
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Rhagair



Rwy'n falch o gyflwyno fy ail adroddiad blynyddol fel Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru (IEPAW) ar gyfer y cyfnod 1 Mawrth 2022 i 28 Chwefror 2023. Yn ystod y cyfnod hwn, mae fy nhîm a minnau wedi bod yn gweithio'n galed i asesu effeithiolrwydd deddfwriaeth diogelu'r amgylchedd yma yng Nghymru a chyflwyno argymhellion ar gyfer gwella a chryfhau'r ddeddfwriaeth hon.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf cawsom chwe chyflwyniad gan y cyhoedd yn tynnu sylw at bryderon am y gyfraith amgylcheddol yng Nghymru. Er bod hyn gryn dipyn yn is na'r hyn a gafwyd yn ystod y 12 mis blaenorol, roedden nhw'n werthfawr wrth nodi meysydd lle gellir diogelu'r amgylchedd yn well.

Ers yr adroddiad blynyddol diwethaf, mae fy nhîm a minnau wedi bod yn gweithio'n galed i gyflwyno adroddiadau mewn sawl maes allweddol a chymryd camau i sicrhau ein bod ni'n darparu gwasanaeth mwy tryloyw i'r cyhoedd a'n rhanddeiliaid.

Cafodd ein hadroddiad cyntaf ei gyhoeddi yn ystod y flwyddyn adrodd hon a'i gyflwyno i'r Gweinidog Newid Hinsawdd ym mis Chwefror 2023, ac mae'n ymwneud ag effaith bosibl Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) arfaethedig ar ddiogelu'r amgylchedd yng Nghymru. Fel y nodir yn ein hadroddiad, credaf fod y ddeddfwriaeth arfaethedig hon yn peri risgiau difrifol i'r fframwaith cyfreithiol ar ddiogelu'r amgylchedd yng Nghymru, ac rwy'n annog Llywodraeth Cymru i wneud popeth posib i leihau'r risgiau hyn.

Wrth edrych ymlaen, mae'n bwysig ein bod ni'n parhau i ganolbwyntio ar ein nod o sicrhau bod deddfwriaeth Cymru'n darparu amddiffyniad cadarn i'r amgylchedd yng Nghymru, a bod gweithredu deddfwriaeth o'r fath yn arwain at ganlyniadau amgylcheddol da ym mhob cwr o'r wlad. Rwy'n cydnabod ei bod yn her gymhleth, ac rwyf wedi ymrwymo i weithio gyda rhanddeiliaid i ddod o hyd i atebion arloesol ac effeithiol i ddiogelu ein hamgylchedd.

Hoffwn ddiolch yn arbennig i aelodau'r cyhoedd a rhanddeiliaid am gysylltu â ni dros y flwyddyn ddiwethaf i dynnu sylw at bryderon neu gyflwyno tystiolaeth i ategu ein gwaith. Gwerthfawrogir eich cefnogaeth barhaus yn fawr, ac edrychaf ymlaen at weithio gyda chi dros y 12 mis nesaf.

# Cyflwyniad

Ers mis Mawrth 2021,
mae Dr Nerys Llewelyn Jones wedi cyflawni rôl Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru. Ei rôl yw ystyried pryderon y cyhoedd am weithredu cyfraith amgylcheddol yng Nghymru. Proses dros dro yw hon fydd ar waith hyd nes bod corff parhaol yn cael ei sefydlu yng Nghymru i oruchwylio cydymffurfiaeth â chyfraith amgylcheddol.

Cafodd Dr Llewelyn Jones ei chontractio am gyfnod o hyd at ddwy flynedd i ddechrau, er bod hyn wedi'i ymestyn am flwyddyn arall tan 29 Chwefror 2024.

Mae'r IEPAW yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru, er bod swyddogion Llywodraeth Cymru'n darparu cefnogaeth ysgrifenyddol i'r IEPAW. Rydyn ni'n canolbwyntio ar weithrediad cyfraith amgylcheddol, nid ar achosion o dorri'r gyfraith honno. Ein hamcanion yw:

- darpar trosolwg o weithrediad cyfraith amgylcheddol yng Nghymru; ac
- ystyried materion systemig sy'n ymwneud â gweithredu cyfraith amgylcheddol yng Nghymru.

Nid yw ein rôl yn cynnwys:

- achosion o dorri cyfraith amgylcheddol;
- meysydd o beidio â chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol; a
- materion a godwyd a gaiff eu cwmpasu gan fecanwaith neu broses gwyno arall.

Ein nod yw nodi lle mae modd cymryd camau i wella gweithrediad cyfraith amgylcheddol er mwyn gwella canlyniadau amgylcheddol. Mae manylion ynghylch sut i leisio pryder am weithrediad cyfraith amgylcheddol yng Nghymru, yn ogystal â'n cylch gorchwyl, ar gael yn www.llyw.cymru/asesydd-interim-diogelur-amgylchedd-cymru

Rydyn ni wedi ymrwymo i gyhoeddi adroddiad blynyddol ar y cyflwyniadau a ddaeth i law, ac unrhyw gamau a gymerwyd mewn perthynas â nhw. Dyma'r ail adroddiad blynyddol ac mae'n ymwneud â'r cyfnod 1 Mawrth 2022 i 28 Chwefror 2023.

# Adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Ar 30 Mehefin 2022, fe wnaeth IEPAW fynychu sesiwn dystiolaeth ar lafar a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith. Roedd yn gyfle i'r Pwyllgor graffu ar weithrediad y trefniadau llywodraethu amgylcheddol interim a dysgu mwy gan Dr Llewelyn Jones am ei blwyddyn gyntaf fel Asesydd Interim. Yn dilyn y sesiwn dystiolaeth hon, cyhoeddodd y Pwyllgor adroddiad ar weithredu mesurau llywodraethu amgylcheddol interim.

Rydym yn ddiolchgar i'r Pwyllgor am ei waith yn y maes hwn ac am yr argymhellion ar gyfer gwella'r trefniadau llywodraethu amgylcheddol dros dro. Mae argymhellion y Pwyllgor yn becyn pwysig o welliannau i sicrhau y gall yr IEPAW gyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol nes bod corff goruchwylio amgylcheddol parhaol ar waith.

Er bod yr argymhellion yn yr adroddiad wedi'u bwriadu'n bennaf ar gyfer Llywodraeth Cymru, mae dau argymhelliad yn uniongyrchol berthnasol i'r IEPAW. Roedd y rhain yn ymwneud â chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd o wasanaeth yr IEPAW a'i dryloywder. Rydym ni'n cytuno'n llwyr ag argymhellion y Pwyllgor yn y meysydd hyn ac wedi cymryd camau i'w rhoi ar waith.

Maent yn cynnwys:

- cyflwyno cyfres o gyfarfodydd rhanddeiliaid chwarterol;
- cyhoeddi manylion rhaglen waith dreigl yr IEPAW ar ein tudalennau gwe; ac
- estyn allan at gyrff cynghori cyhoeddus i sicrhau eu bod yn ymwybodol o wasanaeth yr IEPAW.

Hefyd, rydym ni wedi adnewyddu ein tudalennau gwe fel eu bod yn fwy hwylus i ddefnyddwyr ac er mwyn tynnu sylw at natur annibynnol yr IEPAW. Yn ogystal, wrth i'r rôl ddatblygu ac wrth i ni gyhoeddi mwy o adroddiadau, rydym ni'n edrych ar ein strategaeth gyfathrebu ymhellach hefyd ar hyn o bryd i sicrhau y gallwn gyrraedd cynulleidfa mor eang â phosibl.

Argymhelliad allweddol arall adroddiad y Pwyllgor oedd y dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad brys o adnoddau'r IEPAW. Mae'r adolygiad hwn wedi'i gynnal bellach, a materion adnoddau clir wedi'u nodi. Mewn ymateb i'r adolygiad hwn, mae'r Gweinidog Newid Hinsawdd wedi gwneud yr ymrwymiadau canlynol i sicrhau bod gan yr IEPAW yr adnoddau sydd eu hangen arno i gyflawni ei swyddogaethau:

- Penodi Dirprwy IEPAW,
- Recriwtio staff dynodedig i ddarparu cymorth ysgrifenyddiaeth i'r IEPAW, a
- Darparu rhagor o arian i'r IEPAW er mwyn sicrhau cymorth ac arbenigedd drafftio ychwanegol, gan gynnwys defnyddio contract yn ôl y gofyn.

Rydym yn ddiolchgar i Lywodraeth Cymru am ymrwymo i ddarparu'r adnodd ychwanegol mawr ei angen hwn, a byddwn yn cydweithio'n agos â nhw i sicrhau bod yr ymrwymiadau hyn yn cael eu cyflawni'n llawn. Yn benodol, byddai penodi dirprwy IEPAW yn cyfrannu'n fawr at sicrhau bod y gwasanaeth yn gallu cyflawni ei swyddogaethau yn ogystal â darparu cadernid a darpariaeth wrth gefn i'r tîm.

# Yr hyn a gyflawnwyd yn 2022-2023

Un mater a gododd yn y cyfnod adolygu blynyddol diwethaf oedd nad oedd llawer o gyflwyniadau yn cynnwys digon o fanylion i ni benderfynu a oedd modd cyfiawnhau adroddiad i Lywodraeth Cymru. Yn aml roedd hyn yn golygu ein bod wedi gorfod gohebu ymhellach â'r rhai gyflwynodd wybodaeth, yn ogystal â phartïon eraill â diddordeb, er mwyn cael y wybodaeth angenrheidiol i asesu a ddylid bwrw ymlaen â chyflwyniad a darparu penderfyniad cychwynnol ynghylch cwmpas hyd yn oed. Hefyd, cawsom lawer o gyflwyniadau a oedd y tu allan i gwmpas ein cylch gwaith. Mae ymdrin â'r materion hyn wedi rhoi pwysau ychwanegol ar ein hadnoddau cyfyngedig.

Er mwyn lliniaru'r problemau hyn, fe wnaethom gyflwyno [ffurflen gyflwyno](). Nod y ffurflen yw sicrhau ein bod ni'n derbyn y wybodaeth sydd ei hangen arnom o'r cychwyn cyntaf, gan leihau'r amser a'r adnoddau a dreulir yn ymdrin â phryderon wedyn. Rydyn ni'n gobeithio bod hyn wedi helpu rhai sy'n lleisio pryderon hefyd i ystyried ac asesu a yw'r pryder dan sylw o fewn cylch gwaith yr IEPAW ar y cychwyn a chyn gwneud cyflwyniad. Yn seiliedig ar y cyflwyniadau a dderbyniwyd yn ystod 2022-23, mae'n ymddangos bod y broses hon wedi bod yn effeithiol wrth sicrhau ein bod ni'n derbyn y wybodaeth gywir y tro cyntaf, gan leihau'r amser sydd angen ei dreulio'n gofyn am wybodaeth bellach gan bobl. Hefyd, bu gostyngiad amlwg yn nifer y cyflwyniadau sydd y tu allan i gylch gwaith yr IEPAW.

Fel y nodwyd yn Adroddiad Blynyddol y llynedd, rydym ni wedi paratoi [canllaw cyfeirio]() o'r rheoleiddwyr amgylcheddol amrywiol er mwyn helpu defnyddwyr i leisio pryderon gyda'r corff rheoleiddio mwyaf addas. Mae hwn ar gael ar ein gwefan, ac mae modd ei ddefnyddio wrth ymateb i gyflwynwyr yn ogystal ag fel adnodd ar gyfer rhai sydd â phryderon er mwyn eu cyfeirio at y corff mwyaf priodol cyn gynted â phosib. Rydym wedi cyhoeddi ein [hegwyddorion blaenoriaethu]() hefyd sy'n nodi sut rydym yn penderfynu pa gyflwyniadau sy'n gofyn am adroddiad i Weinidogion Cymru.

# Ymgysylltu â rhanddeiliaid

Yn 2022, trefnwyd cyfres o gyfarfodydd chwarterol â rhanddeiliaid. Mae'r cyfarfodydd hyn yn gyfle i ddiweddaru partïon â diddordeb ar waith yr IEPAW yn ogystal â chyfle i randdeiliaid godi unrhyw faterion newydd neu rai sy'n datblygu. Llwyddodd y sesiynau hyn i ddenu nifer dda o bobl ac roedden nhw'n ffynhonnell wybodaeth werthfawr i ni ac wedi'n helpu i fod yn fwy tryloyw am ein gwaith. Hefyd, rydym wedi cyfarfod â nifer o randdeiliaid yn unigol i drafod materion penodol, gan gynnwys yr RSPB, Cymdeithas Clercod Gwaith Amgylcheddol (AECoW) a'r Gynghrair Werdd.

Yn Sioe Fawr Llanelwedd 2022 cynhaliwyd trafodaeth banel gennym ar reoli a diogelu gwrychoedd. Trefnwyd hyn mewn ymateb i sawl cyflwyniad ar y pwnc a dderbyniwyd yn ystod 2021-22. Roedd yn ddigwyddiad poblogaidd a arweiniodd at drafodaeth fywiog ar y pwnc. Ar ôl y digwyddiad, fe wnaethom lansio galwad am dystiolaeth i ofyn am dystiolaeth ynghylch a yw Rheoliadau Gwrychoedd 1997 yn cyflawni eu nod penodol o ddiogelu gwrychoedd yn effeithiol. Byddwn ni'n defnyddio'r dystiolaeth a dderbyniwyd i lywio adroddiad i Weinidogion Cymru a gaiff ei gyhoeddi yn 2023.

Ym mis Tachwedd 2022, cynhaliwyd digwyddiad bwrdd crwn i randdeiliaid ar safleoedd gwarchodedig ym Machynlleth. Roedd hyn yn cynnwys taith o gwmpas Gwarchodfa Natur gyfagos Ynys-hir er mwyn i bawb gael profiad uniongyrchol o rai o'r materion a'r problemau sy'n codi wrth reoli'r safleoedd hyn. Roedd y digwyddiad wyneb yn wyneb hwn ar y safle yn hynod effeithiol o ran deall y materion sy'n peri pryder, ac er mwyn llywio'r alwad am dystiolaeth a lansiwyd gennym ar reoli a diogelu safleoedd gwarchodedig yng Nghymru. Ein bwriad yw cyhoeddi adroddiad ar y pwnc yn ystod yr Haf/Hydref 2023.

Rydym yn cyfarfod yn rheolaidd â chynrychiolwyr Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i drafod materion hen a newydd. Bu'r cyfarfodydd hyn yn arbennig o ddefnyddiol fel fforwm ar gyfer codi materion yn uniongyrchol gyda'r rheoleiddiwr, gan gynnwys pryderon a godwyd sydd y tu hwnt i'n cylch gwaith ni. Maent yn cynnwys:

- Gofyniad Deddf Coedwigaeth 1967 i CNC gynnal Pwyllgor Cynghori Rhanbarthol er mwyn rhoi cyngor ar swyddogaethau coedwigaeth penodedig. Mewn ymateb mae CNC wedi cadarnhau bod eu Bwrdd wedi cymeradwyo sefydlu Pwyllgor Cynghori Rhanbarthol fel is-grŵp Fforwm Rheoli Tir presennol Cymru ym mis Mai 2022. Nod CNC yw i gyfarfod cyntaf y Pwyllgor Cynghori gael ei gynnal erbyn mis Medi 2023.
- Dyletswydd Rheoliadau Trwyddedu Amgylchedd 2016 ar CNC i gynnal cofrestr gyhoeddus lawn sy'n cynnwys yr wybodaeth a bennir yn Atodlen 27 y Rheoliadau. Mewn ymateb, mae CNC wedi cadarnhau bod y ddyletswydd yn cael ei chyflawni'n llawn. Dywedodd CNC, er y gallai materion cydweddiad meddalwedd fod wedi achosi anhawster i rai defnyddwyr gael gafael ar wybodaeth, mae eu gwefan yn esbonio sut i gael y manylion yn llwyddiannus.

Law yn llaw â'r rhanddeiliaid a restrir uchod, rydym ni'n cyfarfod â swyddogion perthnasol yn nhimau polisi Llywodraeth Cymru hefyd i drafod y cyflwyniadau a dderbyniwyd yn ogystal â materion newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg.

# Ymgysylltu trawsffiniol

O ystyried natur drawsffiniol llawer o faterion amgylcheddol, mae'n bwysig ein bod ni'n meithrin perthynas waith adeiladol gyda'n cymheiriaid yng ngwledydd eraill y DU. Am y rheswm hwn, rydym ni'n cyfarfod yn rheolaidd â chynrychiolwyr o'r Office for Environmental Protection (sy'n cynrychioli Lloegr a Gogledd Iwerddon) ac Environmental Standards Scotland. Er bod cylchoedd gwaith a phwerau pob corff ychydig yn wahanol, mae'r cyfarfodydd hyn yn fforwm amhrisiadwy ar gyfer cydweithredu a chyfnewid gwybodaeth, gan alluogi'r tri chorff i drafod ein blaenoriaethau ar y cyd, tynnu sylw at broblemau sy'n dod i'r amlwg, a rhannu gwybodaeth am arferion gorau.

Er mwyn cryfhau'r berthynas hon ymhellach, mae'r tri chorff wedi cytuno ar femorandwm cyd-ddealltwriaeth teirochrog sy'n nodi sut y bydd y tri chorff yn cydweithio a rhannu gwybodaeth.

Mae'r tri chorff yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod problemau penodol yn ymwneud â diogelu'r amgylchedd. Mae'r rhain yn cynnwys cyfarfodydd rheolaidd i drafod gwaith parhaus y cyrff mewn perthynas â safleoedd gwarchodedig yn ogystal â rhoi gwybod i'w gilydd am ddatblygiadau ansawdd dŵr. Mae'r tri chorff yn ceisio cydweithredu cymaint â phosibl ar y materion hyn.

# Proses

Ein nod yw rhoi ymateb cychwynnol i ffurflenni o fewn 20 diwrnod gwaith i'w derbyn. Yn ystod y flwyddyn hon, rydym wedi ymateb o fewn yr amserlen hon i 100% o'r cyflwyniadau a dderbyniwyd.

Pan fydd cyflwyniad yn ein cyrraedd, rydym ni'n cynnal ymarfer cwmpasu i benderfynu a yw'n ymwneud â gweithredu cyfraith amgylcheddol yng Nghymru ac felly y gallwn ni ei ystyried. Os yw'r cyflwyniad o fewn cwmpas ein gwaith ni, yna cynhelir ymarfer blaenoriaethu hefyd i benderfynu a ddylai fod yn destun adroddiad i Weinidogion Cymru. Does dim modd llunio adroddiad mewn ymateb i bob cyflwyniad a dderbynnir. Yn hytrach, ein nod yw canolbwyntio ein hadnoddau ar y materion hynny sydd â'r flaenoriaeth uchaf yn ein tyb ni, yn unol â'r egwyddorion blaenoriaethu a gyhoeddwyd gennym.


# Y cyflwyniadau a dderbyniwyd

Yn ystod 2022-23, cawsom chwe chyflwyniad yn lleisio pryderon am weithredu'r gyfraith amgylcheddol yng Nghymru. Roedd hyn gryn dipyn yn is na'r cyflwyniadau a gafwyd yn y flwyddyn flaenorol. Roedd y cyflwyniadau a dderbyniwyd yn cynnwys:

- Un cyflwyniad yn ymwneud â diogelu a rheoli safleoedd gwarchodedig
- Un cyflwyniad ar ansawdd dŵr
- Un cyflwyniad yn ymwneud â chais cynllunio lleol
- Dau gyflwyniad ar halogiad gan biffenylau polyclorinedig (PCBs), ac
- Un cyflwyniad ar faterion coedwigaeth.

O'r cyflwyniadau hyn, ystyriwyd bod un y tu allan i gwmpas proses yr IEPAW felly ni aeth ymhellach. Roedd y cyflwyniad hwn yn ymwneud â chais cynllunio a barnwyd ei fod yn gŵyn am fater cydymffurfio honedig, felly nid oedd o fewn cwmpas proses yr IEPAW.

**Ffigur 1: Dadansoddiad o'r ceisiadau a dderbyniwyd**



# Manylion pellach am bryderon a dderbyniwyd

### Safleoedd gwarchodedig

Yn y cyflwyniad hwn, dywedodd y cyflwynydd nad oedd rheoli a diogelu safleoedd gwarchodedig yng Nghymru yn cyfateb i ofynion cyfreithiol a pholisi. Roedd yn dadlau bod llawer o'r safleoedd hyn yn cael eu difrodi, ddim yn cael eu rheoli'n briodol, a bod bioamrywiaeth yn parhau i ddirywio yng Nghymru. Roedd y cyflwynwr o'r farn hefyd nad oedd y gyfres o bwerau sydd ar gael i CNC i ddiogelu a sicrhau rheolaeth briodol ar gyfer safleoedd gwarchodedig daearol yn cael eu defnyddio i'r eithaf.

Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r mater hwn ac wrthi'n drafftio adroddiad arno. Mae rhagor o wybodaeth ar gael isod.

### Ansawdd dŵr

Roedd y cyflwyniad hwn yn codi pryderon am ddarlleniadau uchel E. coli mewn afon yng Nghymru yn sgil achosion o lygredd. Yn benodol, roedd y cyflwynwr yn poeni am fonitro ansawdd dŵr a bod ansawdd y gwaith monitro'n isel. Tynnodd sylw hefyd at yr anawsterau a gafodd wrth gysylltu â'r rheoleiddwyr priodol er mwyn helpu i nodi achos y darlleniadau E. Coli uchel.

Rydym wedi derbyn sawl cyflwyniad tebyg ar ansawdd dŵr ac yn bwriadu dechrau gweithio ar adroddiad yn y maes hwn yn ystod 2023.

### Halogi tir

Rydym wedi derbyn dau gyflwyniad yn lleisio pryderon am halogiad gan biffenylau polyclorinedig (PCBs) ar sawl safle yng Nghymru. Yn benodol, mynegwyd pryderon am ddosbarthiad tir halogedig dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, yn ogystal â phryderon y gallai'r canllawiau statudol ar gyfer y ddeddfwriaeth hon danseilio ei bwriad.

Rydym wrthi'n ystyried a ddylid bwrw ymlaen ag adroddiad mewn ymateb i'r cyflwyniadau hyn. Yn y cyfamser, rydym wedi gofyn am ragor o wybodaeth gan CNC a Llywodraeth Cymru i helpu i lywio ein penderfyniad.

### Coedwigaeth

Roedd y cyflwyniad hwn yn lleisio pryderon am ddiffyg gwarchodaeth dybiedig i goed a choetir mewn deddfwriaeth bresennol yng Nghymru. Roedd y pryderon a leisiwyd yn y cyflwyniad yn cynnwys diffyg gorfodi effeithiol canfyddedig gan y rheoleiddiwr ac awdurdodau lleol; dim ystyriaeth yn y ddeddfwriaeth i garbon sy'n cael ei storio mewn coetiroedd a phriddoedd coetir; diffyg ymwybyddiaeth o'r rheoliadau; a difrod cronnus i gynefinoedd a storio carbon a achosir trwy gael gwared ar nifer fach o goed dan eithriadau yn y ddeddfwriaeth.

Ar hyn o bryd rydym ni wrthi'n drafftio adroddiad ar ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â diogelu coed a choetir. Mae'r cyflwyniad hwn yn cael ei ystyried yng nghyd-destun yr adroddiad hwn.

# Adrodd i Weinidogion Cymru

Yn ystod y cyfnod 1 Mawrth 2022 – 28 Chwefror 2023 fe wnaethom gyflwyno un adroddiad i Weinidogion Cymru. Roedd yr adroddiad hwn yn ymwneud â Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) Llywodraeth y DU ac fe'i cyflwynwyd ar 16 Chwefror 2022.

Roedd ein hadroddiad ar y mater hwn yn nodi sawl pryder yn ymwneud â'r Bil a'i effaith bosibl ar ddeddfwriaeth amgylcheddol. Yn benodol, roedd gennym bryderon difrifol ynghylch y cymal machlud a gynigiwyd yn y Bil hwn a allai weld miloedd o ddarnau o gyfraith yr UE a ddargedwir yn diflannu heb ddigon o amser i ystyried effeithiau newid mor ddramatig, heb sôn am roi deddfwriaeth amgen addas ar waith.

Yn ein hadroddiad, rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddefnyddio pa bynnag ddulliau sydd ar gael iddi i geisio newidiadau i'r Bil arfaethedig, yn ogystal â chymryd pa gamau bynnag sy'n angenrheidiol i liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar y fframwaith cyfreithiol yng Nghymru.

Ymatebodd Llywodraeth Cymru ar 12 Mai 2023. Yn anffodus, cymerodd yr ymateb hwn fwy o amser na'r chwe wythnos y cytunwyd arno. Fodd bynnag, roeddem yn falch o weld bod Llywodraeth Cymru'n rhannu ein pryderon ac wedi ymgysylltu'n gadarnhaol â'r argymhellion yn ein hadroddiad. Rydym yn croesawu ymateb y Llywodraeth i'n hadroddiad ac yn nodi bod cynnwys yr ymateb yn cyd-fynd â'n hargymhellion ar y cyfan. Mae'r adroddiad, ac ymateb y Llywodraeth, ar gael yn: [www.llyw.cymru/bil-cyfraith-yr-ue-ddargedwir-dirymu-diwygio-adroddiad](www.llyw.cymru/bil-cyfraith-yr-ue-ddargedwir-dirymu-diwygio-adroddiad).

# Adroddiadau ar y gweill

Mae gwaith yn parhau ar ein hadroddiad ar **goedwigaeth**. Er bod yr adroddiad hwn yn cymryd mwy o amser na'r disgwyl, y nod yw ei gyhoeddi yn ystod 2023. Bydd yr adroddiad yn canolbwyntio ar orchmynion cadw coed, y Ddeddf Coedwigaeth, a materion cysylltiedig. Rydym yn ystyried cyflwyniadau pellach a dderbyniwyd ar faterion tebyg yn ymwneud â choedwigaeth hefyd fel rhan o waith drafftio'r adroddiad hwnnw.

Rydym wrthi'n drafftio adroddiad ar ddiogelu a rheoli gwrychoedd. Bydd yn ystyried a yw Rheoliadau Gwrychoedd 1997 yn cyflawni eu nod datganedig o ddiogelu gwrychoedd yn effeithiol. Mae hyn yn dilyn trafodaeth banel IEPAW ar y mater yn ystod y Sioe Fawr a galwad gyhoeddus am dystiolaeth a barhaodd tan ddiwedd mis Medi 2022. Mae'r adroddiad bron wedi'i gwblhau a bydd yn cael ei gyhoeddi'n fuan.

Rydym yn gweithio hefyd ar adroddiad ar y fframwaith cyfreithiol mewn perthynas â **safleoedd gwarchodedig**. Mae'r adroddiad yn cael ei lywio gan dystiolaeth a gasglwyd mewn digwyddiad bwrdd crwn i randdeiliaid ym mis Tachwedd 2022 a galwad gyhoeddus am dystiolaeth. Rydym yn bwriadu cwblhau'r adroddiad yn 2023. Mae cyrff llywodraethu amgylcheddol eraill y DU yn ystyried y mater hwn hefyd, ac rydym yn cyfarfod â nhw'n rheolaidd i drafod cynnydd ein prosiectau unigol.

Rydym yn bwriadu dechrau gweithio ar adroddiad ar ddefnyddio **sancsiynau sifil** mewn cyfraith amgylcheddol hefyd. Nod arfaethedig yr adroddiad hwn fydd ystyried a oes gan reoleiddwyr yng Nghymru'r offer sydd eu hangen arnynt i sicrhau cydymffurfiaeth â chyfraith amgylcheddol, ac a fyddai ehangu sancsiynau sifil yn gwella canlyniadau amgylcheddol. Hefyd, rydym ni'n parhau i gadw llygad ar ddatblygiadau'n ymwneud ag **ansawdd dŵr** yng Nghymru, yn enwedig gollwng carthion i afonydd Cymru.

# Casgliad

Swydd dros dro yw'r IEPAW, ac rydym ni'n edrych ymlaen at glywed cynlluniau Gweinidogion Cymru ar gyfer y tymor hwy yn fuan iawn, o safbwynt llywodraethu amgylcheddol yng Nghymru. Rydym yn croesawu sylwadau ac adborth mewn perthynas â'r rôl a'i gwaith. Os oes gennych chi unrhyw sylwadau am yr adroddiad neu'r rôl, os hoffech gael eich ychwanegu at y rhestr bostio, neu os ydych am leisio pryder am weithredu'r gyfraith amgylcheddol yng Nghymru, cysylltwch â IEPAW@llyw.cymru.